

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

New Image, Bangor

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ebrill 2025

Dyddiad cyhoeddi: 28 Gorffennaf 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
4.	Y camau nesaf	15
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	16
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	17
	Atodiad C - Cynllun gwella	18

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o New Image ar 28 Ebrill 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 16 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff yn New Image yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd dymunol. Roedd yr adeilad mewn cyflwr da ac yn lân yn ôl pob golwg.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd yr ystafell drin yn lân ac yn daclus ac yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal. Roedd ymgynghoriadau cyn triniaeth a gwybodaeth wedi'i hargraffu yn sicrhau bod y cleifion yn deall y triniaethau a ddarperir a'r canlyniadau disgwyliadwy.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob claf yn cael copi o'r canllaw i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn ddymunol ym mhob rhan o'r adeilad
- Prosesau ymgynghori cyn triniaethau cynhwysfawr.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau glanhau effeithiol ar waith.

Roedd yr uned laser wedi cael ei gwasanaethu a'i chynnal a'i chadw'n briodol. Roedd Cynghorydd Diogelu rhag Laserau penodedig yn ogystal â Rheolau Lleol cyfredol. Y rheolwr cofrestredig oedd unig weithredwr yr uned laser a dangosodd brofiad helaeth. Roedd protocol trin cyfredol a chynhwysfawr ar waith.

Roedd trefniadau addas ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed. Roedd cofnodion priodol a chyflawn yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd mesurau priodol ar waith mewn perthynas â diogelwch tân ac asesiadau risg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gloywi Craidd Gwybodaeth ar adegau priodol

- Sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gloywi ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân ar adegau priodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y safle mewn cyflwr da ac roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer profi cyfarpar trydanol a diogelwch tân
- Roedd yr uned laser a ddefnyddir yn y clinig yn cael ei gwasanaethu a'i chynnal a'i chadw'n briodol i sicrhau triniaeth ddiogel
- Roedd protocolau a rheolau lleol priodol ar waith ar gyfer triniaethau
- Roedd cofnodion cleifion cynhwysfawr yn cael eu cadw.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Y rheolwr cofrestredig oedd unig weithredwr yr uned laser ac roedd yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith. Roedd rhywfaint o waith gwella ansawdd wedi cael ei gwblhau gyda ffocws ar brofiad y claf.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried opsiynau i fonitro a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Cawsom gyfanswm o 16 o holiaduron wedi'u cwblhau. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 16 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a'r sylwadau yn gadarnhaol.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Rwyf wedi bod yn mynd i'r salon hwn ers rhai blynyddoedd. Hapus iawn â fy nhriniaeth.”

“Mae'r gwasanaeth bob amser o safon uchel iawn.”

“Gwasanaeth cwsmeriaid da iawn.”

“Ni allwn fod wedi gofyn am fwy. Gwnaeth y staff i mi deimlo'n gyfforddus ac atebwyd pob un o fy nghwestiynau. Gwasanaeth rhagorol.”

Urddas a pharch

Roedd yn bosibl cloi drws yr ystafell drin ac roedd bleinds wedi'u cau ar y ffenestr allanol er mwyn sicrhau preifatrwydd cleifion yn ystod triniaethau. Roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn yr adeilad i hyrwyddo preifatrwydd y cleifion yn ystod triniaethau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai cleifion newid, pe bai angen, yn yr ystafell drin y gellir ei chloi ac y byddai'r aelodau o'r staff yn gadael yr ystafell er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y claf.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrandao arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl ar lafar cyn ac ar ôl eu triniaeth, er mwyn sicrhau y gallent wneud penderfyniad gwybodus am y driniaeth.

Roedd ffurflenni cydsynio yn cael eu storio'n ddiogel. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cwblhau ffurflen ymgynghori a ffurflen hanes meddygol a oedd yn gofyn am lofnod i ddangos eu bod yn cydsynio a bod profion croen wedi'u cynnal. Ar gyfer apwyntiadau dilynol, roedd angen i'r cleifion lofnodi i gadarnhau eu bod yn cydsynio a ph'un a oedd unrhyw newidiadau meddygol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael prawf croen a bod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn rhoi triniaeth.

Roedd gwybodaeth fanwl am y driniaeth, cydsyniad ar sail gwybodaeth a gofal a'r ôl triniaethau yn cael eu rhoi i'r holl gleifion. Roedd dogfen canllaw i gleifion cynhwysfawr ar gael ond nid oedd yn cael ei rhoi i'r cleifion fel mater o drefn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob claf yn cael copi o'r canllaw i gleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwnaethom edrych ar y broses gwyno a gwelsom ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, gan gynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb i gwynion, manylion cyswllt AGIC a gwybodaeth am sut i gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf.

Roedd gan y clinig restrau prisiau manwl ac roeddent ar gael ar ei wefan hefyd.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn siarad Cymraeg yn rhugl ac roedd hyn yn cael ei hyrwyddo ymhlith y cleifion yn bersonol ac ar wefan y clinig.

Cynllunio a darparu gofal

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb a phrawf croen cyn triniaeth a bod y canlyniadau'n cael eu dogfennu fel rhan o gofnod triniaeth y claf.

Gwelsom fod cofrestr triniaethau yn cael ei chadw ar gyfer yr uned laser. Roedd y gofrestr hon yn cynnwys enw'r claf, ei gyfeiriad a'i ddyddiad geni, y math o driniaeth, nifer y dosau ac os oedd unrhyw adweithiau niweidiol wedi digwydd, gyda blaenlythrennau'r gweithredwr wrth ymyl pob cofnod. Roedd gwybodaeth fanylach yn cael ei chadw yng nghofnodion y cleifion, gan gynnwys y math o groen, hanes meddygol, hanes triniaethau a'r paramedrau a ddefnyddiwyd.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith yn y clinig, a oedd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a nodweddion gwarchodedig priodol.

Nid oedd yr adeilad na'r ystafell drin yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn nac i gleifion ag anawsterau symudedd gan fod y clinig wedi'i leoli ar ail a thrydydd llawr yr adeilad, a dim ond grisiau oedd ar gael i'w cyrraedd. Roedd y Datganiad o Ddiben yn nodi hyn yn glir ac y byddai busnesau eraill yn cael eu hawgrymu i gleifion yr oedd angen safle mwy hygyrch arnynt o bosibl.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gofyn i'r cleifion fel mater o drefn sut yr hoffent gael eu cyfarch o ran eu henwau a'u rhagenwau.

Cytunodd pawb a atebodd holiadur AGIC nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y clinig yn defnyddio ffurflenni arolwg papur i geisio adborth gan y cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod y canlyniadau'n cael eu casglu a'u hadolygu i asesu a oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan y clinig bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion yn y clinig.

Gwelsom dystiolaeth o adroddiad cyfredol ar osodiadau trydanol, profion offer cludadwy a thystysgrif diogelwch nwy.

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau diogelwch tân, gyda diffoddwyr tân a oedd wedi cael eu gwasanaethu'n briodol wedi'u gosod ar y waliau'n gywir gydag arwyddion clir. Roedd profion larwm tân ac ymarferion gwagio'r adeilad yn cael eu cynnal. Roedd asesiad risg tân ar waith ac roedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân, ond roedd angen diweddarau'r hyfforddiant hwn. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a rhoddwyd tystiolaeth i AGIC bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael yn yr ystafell staff ac roedd y cynnwys i gyd yn gyfredol. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gweithredu fel swyddog cymorth cyntaf, ac roedd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant diweddaraf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob rhan o'r clinig, gan gynnwys yr ystafell drin, yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd yr adeilad mewn cyflwr da iawn a oedd yn sicrhau bod modd ei lanhau'n effeithiol.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig brosesau glanhau priodol, wedi'u hategu gan restrau gwirio glanhau. Roedd contract gwaredu gwastraff addas ar waith ac roedd y gwastraff clinigol yn cael ei drin a'i storio'n briodol.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar atal a rheoli heintiau.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd plant yn cael mynd i'r ystafell drin.

Roedd polisi ar waith yn y clinig ar gyfer diogelu oedolion agored i niwed a oedd yn cynnwys manylion cyswllt priodol yr awdurdod lleol. Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddefnyddio gwefan ac ap ffôn Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru.

Gwnaethom edrych ar dystysgrifau hyfforddiant a gwelsom dystiolaeth fod y gweithredwr wedi ymgymryd â'r hyfforddiant Lefel 1 diweddaraf.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd yr uned laser mewn cyflwr da ac yn cael ei gwasanaethu a'i chynnal yn rheolaidd. Roedd y gweithredwr yn cynnal gwiriadau dyddiol, gan gynnwys glanhau'r uned.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau. Gwelsom fod Rheolau Lleol ar waith, yr oedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi'u llofnodi ac a oedd yn benodol i'r clinig a'r uned laser. Gwnaethom nodi nad oedd yr asesiad risg ar gyfer y cyfarpar laser yn gyfredol. Nododd y rheolwr cofrestredig ei bod yn credu i'r ddogfen gael ei diweddarau'n ddiweddar ond bod y dyddiad yn ymddangos yn anghywir. Cadarnhaodd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau fod y rheolwr cofrestredig yn gywir a darparwyd y fersiwn ddiweddaraf ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr.

Dywedwyd wrthym fod bysellbad electronig ar yr uned laser yr oedd angen rhoi rhif PIN i'w defnyddio. At hynny, roedd drws yr ystafell drin yn cael ei gloi pan nad oedd yr ystafell yn cael ei defnyddio.

Roedd arwyddion priodol ar y drws i'r ystafell drin er mwyn rhybuddio pobl bod unedau laser yn cael eu defnyddio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ond nid oedd wedi'i adnewyddu yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan Gymdeithas Laser Meddygol Prydain.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei bod yn cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth bob pum mlynedd, yn unol â chanllawiau Cymdeithas Laser Meddygol Prydain.

Roedd protocol trin cynhwysfawr a chyfredol ar waith a oedd wedi cael ei lofnodi gan ymarferydd meddygol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y rheolwr cofrestredig yn amlwg yn deall diben archwilio i fonitro a gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Esboniodd y rheolwr cofrestredig mai ychydig iawn o fanteision oedd ynghlwm ag archwilio ei chofnodion ei hun a'i bod yn canolbwyntio ar brofiad ac adborth y claf wrth archwilio i nodi gwelliannau posibl.

Gwelsom fod arolygon cleifion rheolaidd yn cael eu cynnal a bod y canlyniadau'n cael eu coladu a'u hadolygu.

Rheoli cofnodion

Roedd y gofrestr triniaethau a chofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf copïau caled a'u storio'n ddiogel yn yr ystafell drin.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig oedd yr unig weithredwr laser awdurdodedig ar adeg yr arolygiad. Roedd hyn yn unol â chofrestriad y clinig ag AGIC.

Gwelsom fod y clinig yn arddangos tystysgrifau cofrestru AGIC yn glir yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn bodloni'r gofynion rheoliadol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith a oedd hefyd ar gael i'r cleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a manylion cyswllt i uwchgyfeirio pryderon at gyrff allanol.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau datgelu er lles y cyhoedd (chwythu'r chwiban) hefyd ar waith yn y clinig.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwr laser awdurdodedig wedi ymgymryd â'r gwiriadau priodol, gan gynnwys defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i recriwtio a sefydlu staff.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd yr asesiad risg ar gyfer y cyfarpar laser yn gyfredol.	Rhaid cael asesiadau cyfredol er mwyn sicrhau bod y risgiau i'r cleifion yn cael eu lleihau.	Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig yn ystod yr arolygiad.	Roedd y rheolwr cofrestredig yn credu bod y ddogfen wedi cael ei diweddarau'n ddiweddar ond bod y dyddiad yn ymddangos yn anghywir. Cadarnhaodd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau fod y rheolwr cofrestredig yn gywir a darparwyd y fersiwn ddiweddaraf ar ddiwrnod yr arolygiad.
Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân, ond roedd angen diweddarau'r hyfforddiant hwn.	Dylai'r staff gwblhau hyfforddiant blynyddol ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân i sicrhau diogelwch y cleifion.	Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig yn ystod yr arolygiad.	Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a rhoddwyd tystiolaeth i AGIC bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: New Image

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: New Image

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd dogfen Canllaw i Gleifion cynhwysfawr ar gael ond nid oedd yn cael ei rhoi i'r cleifion fel mater o drefn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob claf yn cael copi o'r Canllaw i Gleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 7(2)	Caiff y Canllaw i Gleifion bellach ei roi ym mhob ymgynghoriad ers dyddiad fy arolygiad.	Lisa Owen	Wedi'i gwblhau
2. Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddefnyddio gwefan ac ap ffôn Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 16(3)	Rwyf bellach wedi lawrlwytho ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru i fy ffôn a gallaf ei ddefnyddio arno	Lisa Owen	Wedi'i gwblhau
3. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ond nid oedd wedi'i	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei bod yn cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth bob pum mlynedd, yn unol â	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 20	Byddaf yn dilyn cwrs ar-lein Craidd Gwybodaeth yn ystod y mis nesaf.	Lisa Owen	O fewn 1 mis.

adnewyddu yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan Gymdeithas Laser Meddygol Prydain.	chanllawiau Cymdeithas Laser Meddygol Prydain.				
---	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Lisa Owen

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 24/06/25